
Darparu'r Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang

Cynigion ar gyfer dynodi darparwyr a phennu amodau

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Rhagfyr 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 13 Chwefror 2019

1. Trosolwg

- 1.1 Mae sicrhau bod pobl ar draws pob rhan o'r DU - yng nghefn gwlad, mewn trefi a dinasoedd - yn gallu elwa o gysylltiad band eang teilwng yn flaenoriaeth i Ofcom. Ym mis Mawrth 2018, fe wnaeth y Llywodraeth gyflwyno deddfwriaeth ar ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol (USO) band eang, a fydd yn rhoi hawl i gartrefi a busnesau cymwys ofyn am gysylltiad band eang teilwng. Er mwyn cael gwasanaeth band eang USO, rhaid i bobl fodloni rhai meini prawf cymhwysedd a bennir gan y Llywodraeth.
- 1.2 Mae Ofcom yn croesawu penderfyniad y Llywodraeth i gyflwyno'r USO ac ef sy'n gyfrifol nawr am ei weithredu. Ym mis Mehefin, gofynasom i ddarparwyr telegyfathrebu gynnig eu hunain fel darpar Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol, ac ym mis Medi buom yn ymgynghori ar y rheoliadau ar gyfer dynodi Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn nodi pwy rydyn ni'n bwriadu'i ddynodi'n Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol, a'r amodau a ddylai fod yn berthnasol wrth iddynt ddarparu cysylltiadau a gwasanaethau USO.

Yr hyn rydyn ni'n ei gynnig

Bydd BT a KCOM yn cael eu dynodi'n Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol. Aseswyd wyth datganiad o ddiddordeb yn erbyn y meini prawf a bennwyd gennym fel sail i'n cynnig ynglŷn â pha ddarparwyr fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu'r USO. Nid oedd Airband, Bentley Walker, Broadway Partners, Quickline a Viasat yn bodloni'n meini prawf gofynnol. Yn ôl ein meini prawf gofynnol roedd rhaid i'r darparwyr ddangos: 1) y gallant ariannu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth a chynnal gweithrediad digonol y gwasanaeth rhwng ei sefydlu ac unrhyw iawndal; 2) bod yr ardal ddaearyddol arfaethedig yn cynnwys mwy na 5,000 eiddo cymwys; a 3) y byddai'r dechnoleg arfaethedig yn cyflawni'r fanyleb dechnegol a nodwyd yn y ddeddfwriaeth. Nid oedd Hyperoptic yn bodloni'r meini prawf hyn, ac yn ddiweddarach tynnodd ei ddiddordeb mewn bod yn Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol yn ôl. O ganlyniad, rydym yn cynnig mai BT fydd y Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol ar draws y DU gyfan ar wahân i Ardal Hull, ac mai KCOM fydd y Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol i Ardal Hull.

Os nad yw defnyddiwr yn gallu cael gwasanaeth band eang fforddiadwy, teilwng, efallai y bydd yn gymwys ar gyfer yr USO. Rhaid i gysylltiad USO fod â'r gallu i ddarparu cyflymderau lawrlwytho o 10Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymderau llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad o leiaf ynghyd â pharmedrau ychwanegol sydd wedi'u bwriadu i wella profiad defnyddwyr a dibynadwyedd y cysylltiadau.¹

Bydd gan Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol 30 diwrnod i benderfynu a yw defnyddiwr yn gymwys ar gyfer yr USO. Fel rhan o'r broses hon, bydd rhaid iddynt wirio: bod yr eiddo yn gartref neu fusnes; nad yw'n gallu manteisio ar fand eang teilwng, fforddiadwy sy'n bodoli'n barod; na fydd

¹ Mae manyleb dechnegol lawn yr USO fel a ganlyn: (i) cyflymder cysoni lawrlwytho o 10Mbit yr eiliad o leiaf; (ii) cyflymder cysoni llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad o leiaf; (iii) cymhareb gystadlu o ddim mwy na 50:1; (iv) lefel diffyg ymateb sy'n gallu caniatáu i'r defnyddiwr wneud a derbyn galwadau llais dros y cysylltiad yn effeithiol; a (v) y gallu i ganiatáu defnydd data o 100GB o leiaf y mis.

yn cael ei gwmpasu gan gynllun cyflwyno cenedlaethol yn y 12 mis nesaf; ac na fydd cost cysylltiad yn fwy na £3,400, fel sydd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth.

Bydd gan Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol 12 mis i gyflenwi cysylltiadau i ddefnyddwyr cymwys. Dylai defnyddiwr gael ei wasanaeth USO o fewn 12 mis fan bellaf ar ôl rhoi'i archeb, oni bai fod amgylchiadau eithriadol a allai amharu ar adeiladu'r rhwydwaith.

Dylai cwsmeriaid USO dalu'r un pris â gweddill y DU ac ni ddylai hynny fod yn fwy na £45 y mis. Rhaid i Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol gynnig cysylltiadau a gwasanaethau ar eu rhwydwaith eu hunain am yr un pris heb ystyried a yw'r defnyddiwr yn gwsmer USO neu'n gwsmer arall. Er bod cost y rhan fwyaf o wasanaethau eisoes yn llai na £45 y mis, rydym yn cynnig gosod cap uchafswm o £45 y mis (yn cynn. TAW) fel mesur pellach i ddiogelu fforddiadwyedd.

Dylai cwsmeriaid USO gael gwasanaeth o'r un ansawdd â gweddill y DU. Bydd gan gwsmer USO hawl i wasanaeth o'r un ansawdd â chwsmeriaid sy'n cael eu cysylltu drwy wasanaeth masnachol.

Rhaid i Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol ddarparu adroddiadau perfformiad a chadw cofnodion. Mae hyn er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r amodau, ac fel bod modd archwilio a gwirio unrhyw hawliadau yn briodol.

Cyflwyniad

- 1.4 Mae band eang yn wasanaeth hanfodol erbyn hyn, ac mae angen iddo fod ar gael i bobl ym mhob rhan o'r DU – yn cynnwys cymunedau trefol a gwledig fel ei gilydd.
- 1.5 Mae nifer yr eiddo yr amcangyfrifir nad ydynt yn gallu cael band eang teilwng yn gostwng. Mae tua 860,000 eiddo yn dal i fethu cael band eang teilwng², ac rydym yn amcangyfrif y gallai'r nifer hwnnw fod oddeutu 600,000 erbyn yr 2020au cynnar.³ Yn sgil gwelliannau sylweddol i argaeledd gwasanaethau band eang cyflymach, a'r posibilrwydd y bydd gwasanaethau di-wifr sefydlog yn darparu gwasanaethau ar gyflymder uwch, mae'r nifer hwn yn siŵr o ostwng sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn gallu manteisio ar wasanaethau band eang masnachol.
- 1.6 I helpu'r cartrefi a'r busnesau sy'n dal heb gysylltiad band eang teilwng, cyflwynodd y Llywodraeth USO ar gyfer band eang, a allai ddarparu rhwyd ddiogelwch ddigidol i helpu i leihau allgáu cymdeithasol ac economaidd.
- 1.7 Bydd yr USO yn rhoi'r hawl i ddefnyddwyr a busnesau i ofyn am gysylltiad band eang sy'n gallu darparu cyflymder cysoni lawrlwytho⁴ o 10Mbit yr eiliad a cyflymder cysoni llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad. Er mwyn cael gwasanaeth band eang USO, rhaid i ddefnyddwyr fodloni rhai meini prawf cymhwysedd a bennir gan y Llywodraeth.

² Ofcom, Hydref 2018. *Connected Nations Update*, tudalen 9.

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/122194/connected-nations-october-2018.pdf

³ Ofcom, Rhagfyr 2016. *Achieving decent broadband connectivity for everyone: technical advice to UK Government on broadband universal service*, Ffigur 4.4. https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0028/95581/final-report.pdf

⁴ Cyflymder cysoni cysylltiad yw'r cyflymder cyflymaf mae modd ei gael rhwng adeilad defnyddiwr a rhwydwaith ei ddarparwr gwasanaeth rhyngwyd.

- 1.8 Dim ond lle nad oes cysylltiad band eang fforddiadwy⁵ sy'n cyflawni'r fanyleb ar gael eto yn yr eiddo, ac na fydd yn cael ei ddarparu yn y flwyddyn nesaf gan gynllun cyflwyno a ariennir ag arian cyhoeddus, ac nad yw'r gost o adeiladu USO yn fwy na £3,400, y bydd defnyddwyr yn gymwys.⁶ Lle mae cost y cysylltiad yn fwy na £3,400, bydd gan ddefnyddwyr y dewis i 1) dalu costau ychwanegol gosod cysylltiad sy'n cydymffurfio â manyleb technegol yr USO, 2) defnyddio technoleg amgen, fel band eang lloeren sydd ar gael yn fasnachol tu allan i'r cynllun USO neu 3) cadw eu gwasanaeth bresennol fydd yn cynnig manyleb technegol is na'r USO.

Rhoi ein cynigion ar waith

- 1.9 Rydym yn gweithio i helpu i gyflwyno'r gwasanaeth band eang cyffredinol - prosiect seilwaith mawr, cenedlaethol - mor effeithlon a chyflym â phosibl er budd y bobl nad dynt ar hyn o bryd yn gallu cael band eang teilwng a fforddiadwy. Felly, ein prif amcanion wrth ddarparu'r USO yw:
- darparu'r USO cyn gynted â phosibl, fel y gall defnyddwyr elwa cyn gynted â phosibl;
 - sicrhau bod unrhyw ddarparwr dynodedig yn gallu darparu gwasanaethau sy'n cyflawni gofynion yr USO; a
 - sicrhau bod y gost o ddarparu, ac felly yr effaith ar y diwydiant a defnyddwyr, mor isel â phosibl.
- 1.10 Ym mis Mehefin, gwahoddwyd datganiadau o ddiddordeb gan gwmnïau mewn cael eu dynodi, ar sail genedlaethol neu is-genedlaethol.
- 1.11 Ym mis Medi, ymgynghorasom ar y rheoliadau dynodi drafft, gan gynnig dull dynodi uniongyrchol. Erbyn hyn rydym wedi dod i'r casgliad mai dynodi uniongyrchol yw'r broses gyflymaf a mwyaf effeithiol i benderfynu pwy ddylai fod yn Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol.
- 1.12 Rydym wedi asesu wyth datganiad o ddiddordeb yn erbyn y meini prawf a bennwyd gennym fel sail i'n cynnig ynglŷn â pha ddarparwyr fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu'r USO. O ganlyniad, rydym yn bwriadu dynodi BT a KCOM i gyflawni'r USO.
- 1.13 Rydym hefyd yn gwneud cynigion ynghylch set o rwymedigaethau, sydd wedi'u crynhoi uchod, a fydd yn berthnasol i Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol. Nod ein cynigion yw sicrhau bod defnyddwyr yn gallu manteisio ar wasanaeth band eang teilwng, fforddiadwy, o fewn ffrâm amser resymol, a theimlo'n hyderus y byddant yn cael cystal gwasanaeth â chwsmeriaid mewn rhannau eraill o'r DU.

⁵ At ddibenion cymhwyso, rydym o'r farn y byddai cost cysylltiad band eang fforddiadwy yn ddim mwy na £45 y mis, yn cynnwys TAW, taliadau cysylltu, taliadau misol a thaliadau band eang eraill.

⁶ Nid yw'r trothwy £3,400 yn cynnwys TAW. Lle mae'r costau'n uwch na'r swm hwn, bydd defnyddwyr a busnesau cymwys yn gallu cael eu cysylltiad a'r gwasanaeth dim ond iddynt dalu unrhyw gostau uwchlaw £3,400.

Y camau nesaf

- 1.14 Rydyn ni'n gwahodd sylwadau ar ein cynigion erbyn 13 Chwefror 2019. Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad erbyn dechrau haf 2019 ar ddynodi Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol ac amodau'r gwasanaeth cyffredinol terfynol. Rydym wedi cynnig cyfnod gweithredu i alluogi Darparwyr y Gwasanaeth Cyffredinol i wneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer yr USO, felly rydym yn disgwyl y bydd defnyddwyr yn gallu gwneud cais am gysylltiadau o ddiwedd 2019 ymlaen. Rydym yn disgwyl ymgynghori ynghylch rheoliadau ariannu yn haf 2019.